Defnyddio ffurfiau dos solet o wrthfiotigau i blant
Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

1. Pam rydw i'n derbyn y daflen hon?

Nid yw ffurfiau hylif rhai gwrthfiotigau ar gael yn rhwydd ar hyn o bryd. Mae'r gwrthfiotigau hyn yn cynnwys phenoxymethylpenicillin, amoxicillin, erythromycin, clarithromycin, azithromycin, cefalexin a clindamycin.
Fel bod eich plentyn yn cael y gwrthfiotig sydd ei angen arno, rydych wedi cael ei feddyginiaeth ar ffurf tabled neu gapsiwl. Gallwch ddefnyddio'r rhain i wneud fersiwn hylifol neu feddalach o'r feddyginiaeth y bydd eich plentyn yn ei chael yn haws ei llyncu. Cewch eich cynghori ar ba ddos i'w roi gan feddyg y plentyn neu fferyllydd. Yn achos tabledi gall hyn fod yn hanner tabled neu dabled gyfan. Os mai hanner tabled yw'r dos efallai y gwelwch fod y dabled wedi'i marcio ac yn torri'n hawdd. Mae modd defnyddio teclyn torri tabledi i dorri'r dabled yn gywir. Mae'r rhain ar gael o fferyllfeydd.

2. Sut mae paratoi'r feddyginiaeth ar gyfer fy mhlentyn?

I osgoi unrhyw broblemau i'r croen ac osgoi anadlu'r gwrthfiotig, gwisgwch fenig a mwgwd bob amser pan fyddwch chi'n paratoi'r gwrthfiotig ar gyfer eich plentyn.

Os oes gennych alergedd i benisilin, cephalosporin neu wrthfiotigau macrolide, gofynnwch i rywun arall baratoi'r feddyginiaeth ar gyfer eich plentyn. Os nad ydych chi'n siŵr a yw'n ddiogel i chi ei wneud, gofynnwch i'ch fferyllydd.

Mae'r cyngor isod yn addas ar gyfer dosau o hanner tabled neu dabledi neu gapsiwlau cyfan. Os yw eich plentyn wedi cael dos gwahanol, gofynnwch i'ch fferyllydd am gyngor ar sut i baratoi a rhoi'r dos.

Os yw eich plentyn wedi cael capsiwlau, gallwch eu hagor a rhoi'r powdwr gwrthfiotig y tu mewn i ddŵr neu ei gymysgu â bwyd meddal.

Os yw'ch plentyn wedi cael tabledi, gallwch:

- rhoi'r dabled gyfan neu hanner dabled (yn dibynnu ar y dos) mewn dŵr fel ei fod yn torri ac yn gwasgaru, yna sugno'r hydoddiant mewn i chwistrell geg (neu enterig) i roi'r dos.
- malu'r dabled gyfan neu hanner tabled (yn dibynnu ar y dos), yna ei roi mewn dŵr neu ei gymysgu â bwyd meddal.

3. Sut mae gwasgaru neu falu'r tabledi?

Gwasgaru tabledi i roi dos hanner tabled neu dabled gyfan i'ch plentyn

Defnyddio chwistrell geg:

1. Rhowch hanner tabled neu'r dabled gyfan (yn dibynnu ar y dos) mewn chwistrell geg 10mL.
2. Rhowch y chwistrell yn ôl i mewn a sugno tua 5mL o ddŵr.
3. Tynnwch y chwistrell allan o'r dŵr a sugno tua 2mL o aer.

4. Ysgwydwch y chwistrell yn dda a'i gadael nes taw dim ond gronynnau bach o'r dabled sydd yn yr hylif. Gallai hyn gymryd hyd at 10 munud.

Gan ddefnyddio cwpan gwydr bach neu gwpan meddyginiaeth:

1. Rhowch hanner tabled neu'r dabled gyfan (yn dibynnu ar y dos) mewn cwpan gwydr bach neu gwpan meddyginiaeth ac ychwanegu 5 i 10mL o ddŵr.
2. Trowch y cymysgedd yn dda a'i adael nes taw dim ond gronynnau bach o'r dabled sydd yn yr hylif. Gallai hyn gymryd hyd at 10 munud.

Malu tabledi i roi dos hanner tabled neu dabled gyfan i'ch plentyn

Gallwch falu hanner tabled neu dabled gyfan (yn dibynnu ar y dos) rhwng dwy lwy, neu gallwch ddefnyddio breuan a phestl neu declyn malu tabledi (os oes un gennych).

4. Rhoi'r feddyginiaeth i'ch plentyn

Mae'r tabledi wedi'u gwasgaru neu eu malu a chynnwys y capsiwl yn blasu'n annymunol. Gallwch guddio'r blas drwy eu cymysgu ag **ychydig bach o**:

- ddiod â blas cryf, e.e. diod cyrains duon, neu
- fwyd meddal y mae eich plentyn yn ei hoffi, e.e. jam, saws afalau, iogwrt (tua llond llwy de)

Rhowch y cymysgedd yn syth a cheisiwch sicrhau bod eich plentyn yn cymryd y dos cyfan.

Defnyddiwch chwistrell geg ar gyfer hylifau os yw'ch plentyn yn gweld hyn yn haws.

5. Beth ydw i'n ei wneud os yw fy mhlentyn yn profi unrhyw sgil effeithiau?

Fel gyda phob meddyginiaeth, os bydd eich plentyn yn profi unrhyw sgil effeithiau o'r gwrthfiotig, dylech roi gwybod i'ch meddyg, eich nyrs neu eich fferyllydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap Yellow Card (i'w lawrlwytho o Google Play neu'r Apple App Store) neu wefan Yellow Card i roi gwybod am sgil effeithiau.

Cyngor pellach

Mae Medicines for Children yn rhoi rhagor o wybodaeth am roi tabledi a chapsiwlau i blant.

Defnyddio Meddyginiaethau oddi ar y label

Mae defnyddio meddyginiaethau yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod yn cael ei alw'n oddi ar y label. Mae hyn oherwydd bod yr awdurdod rheoleiddio sy'n cymeradwyo meddyginiaethau yn y DU (yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd) wedi cymeradwyo eu defnydd dim ond os ydynt yn cael eu cymryd fel tabledi neu gapsiwlau solet. Dim ond ar ôl ystyried opsiynau eraill sydd ar gael yn ofalus y defnyddir meddyginiaethau oddi ar y label. Gallwch fod yn hyderus bod yr opsiynau hyn wedi cael eu hystyried gan y tîm sy'n gofalu am eich plentyn.

This leaflet is also available in English Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.